Recriwtio a Chadw Ymddiriedolwyr

Community Libraries Network



Pwysigrwydd ymddiriedolwyr

- Ymddiriedolwyr yw ‘y personau sydd â'r rheolaeth a goruchwyliaeth gyffredinol o weinyddu elusen’
- Rôl ymddiriedolwr mewn elusen yw bod yn ‘warcheidwaid pwrpas’, gan wneud yn siŵr bod pob penderfyniad yn rhoi anghenion y buddiolwyr yn gyntaf.
- Mae 90% o ymddiriedolwyr yn cael eu recriwtio trwy sgyrsiau ar lafar / rhwydweithiau presennol.

Cyfrifoldebau ymddiriedolwyr

Dyma hefyd rai dolenni i hyfforddiant a chanllawiau a allai fod yn ddefnyddiol i chi:

- Modiwlau hyfforddiant i ymddiriedolwyr | ICAEW
- Yr ymddiriedolwr hanfodol: yr hyn sydd angen i chi ei wybod, beth sydd angen i chi ei wneud - GOV.UK
- Cymorth i ymddiriedolwyr | NCVO

Sut olwg sydd ar ymddiriedolwr 'perffaith'?

Defnyddiwch y bwrdd gwyn i ychwanegu eich meddyliau

Sgiliau **Profiad** **Personoliaeth** **Ymddygiadau** **Arall**

Enghreifftiau...

Sgiliau

Busnes
Adran Gynllunio
Llywodraethu
Cydweithredu
Cyllid
Arloesedd
Arwain
Sgiliau Cyfreithiol

Profiad

Rheoli Pobl
Wedi'i ymgorffori yn y sector
Cysylltiadau ag Elusennau
Profiad Bwrdd
Blaenorol
Arweinyddiaeth
Wirfoddol

Personoliaeth

Gonest
Meddwl Ymlaen
Yn Anfeirniadol
Derbyngar
Arloesol
Gwrandäwr Da
Deallusrwydd Emosiynol

Ymddygiadau

Cwestiynu
Hyblyg
Cefnogol
Tosturiol
Dibynadwy
Ffrind Beirniadol

Arall

Wedi ymrwymo i dymor o 2 flynedd

Archwiliad Sgiliau

- Deall cymysgedd sgiliau a phrofiad y bwrdd
- Nodi bylchau yn y bwrdd
- Amlygu blaenoriaethau
- Cynllunio olyniaeth – edrych ymlaen

Defnyddiwch y templed *‘Archwiliad Sgiliau’* i gael mynediad i'ch bwrdd.

Archwiliad Sgiliau

Mae rhai sgoriau enghreifftiau, heriau/cyfleoedd, ynghyd ag awgrymiadau ar gyfer mynd i'r afael â bylchau sgiliau, wedi'u darparu yn yr archwiliad sgiliau enghreifftiol hwn	**Sgôr yr Ymddiriedolwr** Sgoriau ymddiriedolwyr unigol wedi'u llunio gyda'i gilydd mewn matrics								**Heriau a chyfleoedd** sy'n wynebu ein sefydliad	**Bylchau mewn sgiliau, gwybodaeth, yr angen am brofiad**	**Sylwadau**
	3 = Profiad ac arbenigedd sylweddol 2 = Rhywfaint o wybodaeth neu brofiad 1 = Diddordeb mewn dysgu mwy 0 = Dim gwybodaeth na phrofiad								Wedi'u rhestru yn erbyn y sgiliau, y wybodaeth neu'r profiad sydd eu hangen i ddelio â nhw.	Mae bylchau mewn sgiliau, gwybodaeth neu brofiad yn cael eu tynnu allan yma, gan dynnu sylw at feysydd y dylid mynd i'r afael â nhw - naill ai trwy benodi ymddiriedolwyr newydd a/neu ddatblygu ymddiriedolwyr presennol.	
Ymddiriedolwr	**Jim**	**Sue**	**Ali**	**Bob**	**Kim**	**Ian**	**Lyn**	**Cyfans**			
Sgiliau, gwybodaeth, profiad											
Llywodraethu ac Arweinyddiaeth											
Cadeirio	1	2	2	1	0	2	3	11			
Profiad mewn rôl arwain	1	2	2	2	1	1	3	12			
Dyletswyddau cyfreithiol ymddiriedolwyr ac arferion gorau mewn llywodraethu	0	1	1	0	2	2	3	9			
Cyfraith a chydymffurfiaeth elusennau	0	1	2	3	0	1	2	9			
Cynllunio strategol	0	1	1	2	1	2	3	10	Mwy o graffu cyhoeddus ar lywodraethu	Rhai bylchau mewn dealltwriaeth.	Awgrymu hyfforddiant ar ddyletswyddau

Manteision o ddod yn ymddiriedolwr

- Mae 84% o'r ymddiriedolwyr presennol yn dweud bod bod yn ymddiriedolwr yn eu gwneud yn hapusach
- Mae 96% o ymddiriedolwyr yn dweud eu bod wedi dysgu sgiliau newydd trwy fod yn ymddiriedolwr.
- Mae 73% yn dweud ei fod yn rhoi hwb i'w hyder.
- Gall dod yn ymddiriedolwr helpu i gryfhau rhwydweithiau proffesiynol.

Creu Disgrifiad Rôl

- Byddwch yn glir ar ddyletswyddau a disgwyliadau
- Pa sgiliau a phrofiad penodol ydych chi'n chwilio amdanynt?
- Pa sgiliau a rhinweddau personol fyddai'n addas ar gyfer y rôl?
- Byddwch yn glir iawn ynglŷn â thelerau'r swydd e.e. hyd y tymor a ddisgwylir a chyfrifoldebau llywodraethu.
- Byddwch yn glir am ddisgwyliadau cyfarfodydd, gwaith ychwanegol a thasgau a dyletswyddau eraill (prosiectau, codi arian, trafodaethau prydles ac ati).

Gallwch lawrlwytho templed disgrifiad swydd ymddiriedolwr **here**.

Ffyrdd o Recriwtio...

- Diwrnodau blasu
- Gwefan
- Hysbysfyrddau cymunedol
- Hysbysebion â thâl a chyfryngau cymdeithasol
- Grwpiau a sefydliadau lleol
- Safleoedd recriwtio
- Sefydliadau'r Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol
- Digwyddiadau cymunedol
- Sefydliadau proffesiynol

Cadw Ymddiriedolwyr

- Mae angen meithrin ymddiriedolwyr
- Proses sefydlu - prosesau, gweithdrefnau a chyfarfod â'r tîm a gwirfoddolwyr eraill
- Gwirio rheolaidd gydag ymddiriedolwyr
- Ymgysylltu ag ymddiriedolwyr – gwahoddwch nhw i gyfarfodydd tîm, cadwch nhw'n hysbys am fusnes. Osgowch syndrom 'Y Tŵr Ifori'
- Talwch y treuliau ac ymatebwch i ymholiadau'n brydlon
- Cynigiwch hyfforddiant yn rheolaidd e.e. diogelu, diogelu data ac ati a gwiriwch fod hyn yn cael ei adolygu'n flynyddol. Mae 96% o ymddiriedolwyr yn dysgu sgiliau newydd yn eu rôl
- Cynhwyswch Ymddiriedolwyr mewn cyfathrebu a hyrwyddiadau gwirfoddol.
- Dwedwch DIOLCH bob amser!

Cynllunio ar gyfer y Dyfodol a Chynllunio Olyniaeth

- Dechreuwch gyda dogfen lywodraethu'r elusen
- Crëwch Ddyddiadur Llywodraethu
- Datblygwch gynllun olyniaeth clir
- Cynigiwch hyfforddiant